

Defnyddio sganio uwchsain i helpu i osod pibell epidwrol i roi cyffur lleddfu poen neu anesthetig

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio sganio uwchsain yn y GIG i helpu i osod pibell epidwrol i roi cyffur lleddfu poen neu anesthetig. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgôp i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r defnydd o sganio uwchsain wrth osod pibell epidwrol yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes llawer iawn o dystiolaeth ynglŷn â defnyddio sganio uwchsain i osod pibell epidwrol, ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn ddiogel a gallai fod yn ddefnyddiol, yn arbennig os yw'n anodd nodi lle i osod y bibell epidwrol. Gellir cynnig y driniaeth hon i bobl y mae angen cyffur lleddfu poen arnynt neu anesthetig ar gyfer rhan isaf y corff cyn belled â:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylid rhoi gwybodaeth i gleifion am y posibilrwydd o gymhlethdodau anghyffredin ond difrifol lleddfu poen epidwrol ac anesthetig.

Efallai nad hon yw'r unig ffordd bosibl o osod pibell epidwrol. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Sganio uwchsain i helpu i osod pibell epidwrol

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Gellir rhoi cyffuriau i leddfu'r boen neu anesthetig drwy chwistrellu anesthetig lleol i'r cefn drwy bibell fach (a elwir yn gathetr). Gadewir y tiwb hwn yn ei le, sy'n ei gwneud yn haws rhoi mwy o anesthetig os oes angen. Fel arfer fe'i rhoddir i ferched yn ystod y cyfnod esgor ac i gleifion yn ystod neu ar ôl llawdriniaeth i ran isaf y corff (gan gynnwys yr abdomen, rhan isaf y cefn, y cluniau a'r coesau).

Er mwyn gosod y bibell, rhaid gosod nodwydd yn asgwrn cefn y claf. Mae meddygon yn teimlo am y lle cywir rhwng esgyrn y cefn gyda'i dwylo, yna chwistrellir anesthetig lleol i mewn i'r croen er mwyn gwneud y cefn yn ddideimlad yn y rhan hon. Yna gosodir y nodwydd yn araf i

ddyfnder penodol. Wrth osod y nodwydd, mae'r meddyg yn chwistrellu aer neu hylif nes ei fod yn llifo'n rhwydd (a elwir yn 'colli gwrthiant'). Mae hyn yn golygu bod y nodwydd wedi cyrraedd y gwagle y tu mewn i'r asgwrn cefn, a elwir yn wagle epidwrol , sydd ychydig o flaen sach yr asgwrn cefn (pilen sy'n amgylchynu llinyn y cefn). Yna gosodir cathetr i'r gwagle epidwrol , tynnir y nodwydd a gellir rhoi anesthetig lleol drwy'r cathetr.

Defnyddir sganio uwchsain i helpu i ganfod y gwagle epidwrol . Gall fod yn arbennig o ddefnyddiol pan fo'n anodd gosod y tiwb epidwrol (er enghraifft mewn plant neu mewn cleifion sy'n ordew neu sydd â scoliosis, sy'n achosi i asgwrn y cefn grymu). Gellir defnyddio sganio uwchsain yn barhaus i lywio'r nodwydd i mewn i'r corff, rhwng yr esgyrn, a thrwy'r gwagle epidwrol , neu gellir gwneud sgan cyn y gosodir y nodwydd er mwyn helpu i weld lle y dylai'r nodwydd fynd ac amcangyfrif pa mor ddwfn y dylai fynd. Yn y naill ddull a'r llall, defnyddir colli gwrthiant fel gwiriad ychwanegol o hyd i weld a yw'r nodwydd wedi'i osod yn gywir.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud er nad oes llawer iawn o wybodaeth am y driniaeth hon, ei bod yn ymddangos yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod defnyddio sganio uwchsain i osod pibell epidwrol yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Dylai eich meddyg egluro bod posibilrwydd o gymhlethdodau anghyffredin ond difrifol gyda lleddfu poen epidwrol ac anesthetig.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Yn y tair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 402 o ferched yn ystod y cyfnod esgor a gafodd epidwral i leddfu'r boen, roedd angen llai o ymgeision i osod y bibell epidwral mewn merched a gafodd sgan uwchsain cyn gosod y bibell o gymharu â'r rhai na chafodd sgan uwchsain. Gwelodd un o'r astudiaethau hyn (o 30 o ferched) fod angen llai o ymgeision hefyd pan ddefnyddiwyd uwchsain yn barhaus o gymharu â defnyddio uwchsain cyn gosod yr epidwral. Mewn astudiaeth arall (o 300 o ferched), roedd y merched a gafodd uwchsain cyn eu triniaethau yn fwy bodlon na'r rhai na chafodd uwchsain.

Gwelodd astudiaeth o 180 o blant a gafodd uwchsain cyn gosod y bibell epidwrol mai dim ond un ymgais yr oedd ei hangen i osod y bibell epidwrol mewn 179 allan o 180 o driniaethau.

Mewn astudiaeth o 64 o blant, gosodwyd pibell epidwrol yn llwyddiannus ym mhob un o'r plant a gafodd uwchsain. Cymerodd y driniaeth ychydig fwy o amser i'r rhai a gafodd uwchsain cyn y driniaeth o gymharu â'r rhai a gafodd uwchsain wrth osod y bibell epidwrol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod y ffactorau a ddefnyddir i asesu pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio yn cynnwys pa mor gyfforddus yw'r claf wrth osod y bibell epidwrol, a yw'r nodwydd yn cyrraedd y gwagle epidwrol ar y cynnig cyntaf, gosod y bibell yn llwyddiannus mewn cleifion lle na weithiodd y dechneg

gonfensiynol a'r gallu i leoli'r nodwydd a barnu pa mor bell i wthio'r nodwydd i mewn.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn un o'r astudiaethau o ferched yn ystod y cyfnod esgor a gafodd epidwral i leddfu'r boen, gwthiwyd y nodwydd yn rhy bell (gan dorri sach llinyn y cefn) mewn 1 allan o 150 o ferched a gafodd uwchsain cyn y driniaeth ac mewn 2 allan o 150 o ferched na chafodd uwchsain.

Nodwyd cur pen difrifol mewn 4 allan o 150 o ferched a gafodd uwchsain cyn y driniaeth ac mewn 15 allan o 150 o ferched na chafodd uwchsain.

Yn yr astudiaethau o 64 a 180 o blant, ni nodwyd unrhyw achosion o dorri sach llinyn y cefn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd un cynghorydd bod risg uwch posibl o dorri sach llinyn y cefn os na ddefnyddir y dechneg colli gwrthiant.

Rhagor o wybodaeth am epidwral i leddfu poen ac anesthetig

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cyngorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Cyflwyno cathetr i'r gwagle epidwrol wedi'i lywio gan uwchsain'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar

www.nice.org.uk/guidance/HTG160

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon drwy Linell Ymateb y GIG (ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y cyfeirnod N1541).

Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7807-6

N1541 1P Jan 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.